Llwybr Glyndŵr
TAITH BYR

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# Glantwymyn i Fachynlleth



Glantwymyn

## Manylion y llwybr

Llwybr llinol y gellir ei gwblhau orau drwy ddefnyddio gwasanaethau bws lleol. Cewch grwydro ar draws bryniau glaswelltog sy'n cael eu pori gan ddefaid, gan fwynhau golygfeydd godidog o Ddyffryn Dyfi, gyda pharc cenedlaethol Eryri ymhellach draw. Cadwch olwg am hen felinau diddorol wrth ymyl afonydd byrlymus wrth fynd trwy bentrefi bach Abercegyr a Phenegoes.

| | |
|---|---|
| **Pellter:** | 9 milltir/14.6 km |
| **Cyfeirnod Grid y Man Cychwyn:** | SH 82044 04407 |
| **What3Words:** | leaky.zipped.civil |

## Cychwyn

Dechreuwch yng Nglantwymyn, lle mae tafarn, swyddfa bost ac arosfannau bws. Cerddwch i fyny'r ffordd at gylchfan a throwch i'r dde gyda'r arwydd am Langurig, y Drenewydd a Llwybr Glyndŵr. Cerddwch ar hyd llwybr ar ochr dde'r ffordd sy'n codi'n raddol ac yn mynd heibio i gilfan bws er mwyn cyrraedd tŷ gyda chloc ar ei wal. Daw'r llwybr ar ymyl y ffordd i ben, ac ychydig y tu hwnt i'r tŷ mae arwyddbost Llwybr Glyndŵr yn pwyntio i'r dde. Ewch drwy giât fechan, dringwch i'r dde eithaf o'r tŷ ac ewch trwy giât fechan arall. Trowch i'r chwith er mwyn mynd drwy giât fawr a dilynwch lwybr glaswelltog sy'n arwain yn serth i fyny'r allt. Ewch heibio ambell hen dractor segur gan gyrraedd arwyddbost. Trowch i'r dde a dringwch drwy giât fechan er mwyn cyrraedd llethr glaswelltog agored, lle nad oes yna lwybr clir.


Trowch i'r chwith a dringwch mor serth â phosib i fyny'r llethr glaswelltog, wrth iddo arwain i ben y bryn a elwir yn Cefn Coch. Edrychwch yn eich blaen yn ofalus er mwyn gweld arwyddbyst sydd â thopiau plastig melyn, gan fwynhau golygfeydd o'r bryniau cyfagos ar yr un pryd. Dim ond dau bostyn marcio sydd yno, a phan gyrhaeddwch yr ail un, edrychwch yn eich blaen am giât fechan mewn ffens. Ewch drwy'r giât a cherddwch yn syth ymlaen ar draws y llechwedd. Mae gatiau mawr a bach i'w gweld mewn ffens, felly ewch drwy'r giât fechan a daliwch ati i gerdded yn syth yn eich blaen drwy gae arall. Ewch drwy giât fechan arall a chroeswch y cae olaf, gan gyrraedd giât fawr ac arwyddbost.

Ymunwch â ffordd gul a'i dilyn yn syth ymlaen i fyny'r allt. Pan fydd y llwybr yn troi i'r chwith yn sydyn tuag at dŷ unig, trowch i'r dde yn lle hynny gan ddilyn yr arwydd am Lwybr Glyndŵr, drwy giât fawr. Dilynwch drac caeedig nes iddo godi at giât fawr arall gyda disgiau marcio ar y naill ochr a'r llall ac arnyn nhw luniau mes, draig a saethau cyfeiriadol. Ewch drwy'r giât a throwch i'r dde, gan ddilyn llinell ffens a wal o gerrig sychion sydd wedi mynd yn adfail. Cerddwch o gae i gae, gan basio drwy gatiau mawr fel y nodir. Trowch i'r dde er mwyn cerdded i lawr trwy gae, trwy giât fawr, gan fynd ychydig ymhellach i lawr yr allt. Peidiwch â mynd i lawr i fferm Cefncoch-gwyllt, ond trowch i'r chwith gyda'r arwydd i fyny trac byr.

Dringwch yn syth ymlaen i fyny llethr ac edrychwch yn eich blaen am giât fechan mewn ffens. Ewch drwyddi ac edrych ymhell yn eich blaen am giât fawr. Ewch drwy hon a dilynwch lwybr glaswelltog clir i lawr yr allt sy'n edrych dros gwm. Ewch drwy giât fawr arall gan barhau i gerdded i lawr yr allt er mwyn cyrraedd arwyddbost ag iddo dop plastig melyn. Trowch i'r chwith ar hyd llwybr glaswelltog, yna chwiliwch yn ofalus am arwyddbyst eraill, gan basio islaw adeilad adfeiliedig cyn dringo at giât fawr ar fryn Rhos y Silio. Ewch drwy'r giât, yna cerddwch i lawr llethr glaswelltog, gan ymuno â llwybr glaswelltog braf arall a'i ddilyn.

Mae'r trac yn arwain trwy giât fawr arall yn y pen draw; yna cadwch lygad am arwyddbost sy'n pwyntio i lawr i'r dde, lle bydd yna lwybr yn arwain i lawr trwy giât fechan. Ewch yn eich blaen i lawr y llwybr, gan ddisgyn yn raddol ar draws llethr ac yna mynd trwy gatiau bychain eraill. Cadwch i'r dde o'r fferm, gan fynd trwy giât fawr, ac wedyn troi i'r chwith er mwyn ymuno â'r ffordd sy'n mynd at y fferm a mynd yn eich blaen i lawr i bentref bach Abercegyr.

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Glantwymyn i Fachynlleth



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100019741

Trowch i'r dde a mynd i lawr y ffordd gan ddilyn yr arwydd, yna trowch yn sydyn i'r chwith ar gyffordd yn y pentref er mwyn cerdded ar hyd ffordd arall. Rhyw ychydig i lawr y ffordd, fe welwch arwyddbost ar y dde yn pwyntio nôl i Lantwymyn (3¾ milltir) ac ymlaen i Fachynlleth (5 milltir).

Trowch i'r dde gan ddilyn llwybr cul a chroesi pont droed dros afon wrth ymyl Yr Hen Felin. Trowch i'r dde ar hyd trac gan ddilyn yr arwyddbost. Peidiwch â chroesi'r grid gwartheg ond cadwch i'r dde gyda'r arwydd ar hyd llwybr glaswelltog gyda gwrychoedd o boptu iddo. Bydd y llwybr yn mynd yn anwastad dan draed nes ymlaen ac yn arwain trwy giât ar lethr coediog. Trowch i'r chwith wrth arwyddbost er mwyn dilyn llwybr arall, yna trowch i'r dde wrth arwyddbost arall, gan ddringo'n serth i fyny'r allt ar draws y llethr coediog. Maes o law, ar ôl cerdded ar hyd darn pantiog o lwybr, gadewch y goedwig ger Bryn-wg-isaf, ac ewch drwy giât fechan i drac cerbydau.


Trowch i'r chwith i fyny'r trac, ond dim ond am ychydig gamau, yna trowch i'r dde fel y nodir ar hyd llwybr arall sy'n arwain trwy redyn. Cadwch lygad ar y llwybr wrth iddo ddisgyn rhyw ychydig, yna dringwch er mwyn mynd trwy giât fechan mewn ffens. Ewch yn syth yn eich blaen, gan ddilyn y ffens ar draws ael bryn. Mwynhewch y golygfeydd ar draws Dyffryn Dyfi hyd at ardaloedd deheuol Eryri. O bryd i'w gilydd byddwch yn mynd heibio arwyddbyst eraill, ac mae un o'r rhain yn dangos y ffordd at gyffordd o ffensys, lle mae dwy giât fechan yn sefyll yn agos at ei gilydd. Ewch drwy'r ddwy giât a dilynwch ffens yn syth o'ch blaen dros grib glaswelltog. Cerddwch i lawr llethr serth a throwch i'r dde ar y gwaelod fel y nodir, trwy giât fawr.

Dilynwch lwybr clir ar draws llethr glaswelltog, gan ddisgyn yn raddol tuag at fferm. Pan fydd y trac yn troi i'r chwith maes o law tuag at y fferm, cadwch i'r dde yn lle hynny ac ewch trwy giât a dilynwch drac arall i lawr yr allt. Ymunwch ag isffordd a dilynwch hon i mewn i bentref Penegoes. Trowch i'r chwith gan gerdded ar y palmant wrth ymyl ffordd fawr yr A489, gan fynd heibio lloches bws. (Gellir dod â'r daith gerdded i ben yn gynnar yma a dal bws i Fachynlleth, gan arbed tua 2½ milltir.) I barhau, trowch i'r chwith gyda'r arwydd i lawr ffordd fach ac ewch heibio Melin Crewi, sef melin o'r 17eg ganrif sydd wedi'i hadnewyddu. Croeswch y bont dros Afon Crewi a cherddwch i fyny'r ffordd, yna trowch i'r dde gyda'r arwydd am Lwybr Glyndŵr.

Dilynwch drac trwy giât fawr, yna ar ôl disgynfa ac esgynfa esmwyth, trowch i'r chwith gyda'r arwydd i fyny trwy giât fawr arall. Dilynwch drac i fyny'r allt, ewch trwy giât fawr arall ac ewch yn eich blaen i fyny'r allt nes y bydd y trac yn troi i'r dde. Trowch i'r dde gyda'r arwydd gan groesi llethr glaswelltog, ac edrychwch yn eich blaen am arwyddbost, cyn disgyn rhyw ychydig i lawr yr allt. Ewch drwy giât fechan wrth ymyl giât fawr ac ewch yn syth yn eich blaen, yn raddol i fyny'r allt. Cadwch i'r chwith o'r fferm gyda'r arwydd ac ewch drwy giât fechan wrth ymyl cafn dŵr. Trowch i'r dde gan gerdded i lawr at drac sy'n rhoi mynediad i'r fferm, yna trowch i'r chwith gan ddilyn y trac i ffwrdd o'r fferm. Maes o law, ewch heibio grid gwartheg a throwch i'r chwith gyda'r arwydd ar hyd isffordd gul.

Dilynwch y ffordd yr holl ffordd at gyffordd ag arwyddbost ym mhentref bach Y Bont-faen (Forge) a throwch i'r dde. Croeswch y bont sy'n croesi'r afon, Afon Ddulas, a chadwch i'r dde gan ddilyn y ffordd i ffwrdd o'r pentref. Cerddwch ar ochr dde'r ffordd, gan wynebu'r traffig sy'n dod tuag atoch, er diogelwch. Mae'r ffordd yn disgyn gan groesi grid gwartheg ac yna'n parhau yn syth ar draws cwrs golff. Byddwch yn mynd dros grid gwartheg arall wrth i'r ffordd adael y cwrs golff. Cerddwch ar hyd y palmant wrth ochr y ffordd gan ddilyn y ffordd i lawr i Fachynlleth. Trowch i'r chwith ar hyd priffordd yr A489, neu Heol Maengwyn, ac edrychwch yn eich blaen am Ganolfan Owain Glyndŵr hanner ffordd i lawr. Os ydych wedi parcio car ym Machynlleth, yna dychwelwch ato, neu os oes angen dal bws, byddwch yn cyrraedd safleoedd bws ger Tŵr y Cloc.

**Parcio:** Mae lleoedd parcio ar gael o amgylch Machynlleth.
**Bws:** Gwasanaeth bws rheolaidd (nid dydd Sul) rhwng Machynlleth, Penegoes a Glantwymyn.
**Trên:** Gwasanaethau trên dyddiol yn cyrraedd Machynlleth o Aberystwyth, Pwllheli a'r Amwythig.
**Cyffredinol:** Amherthnasol




Am fwy o wybodaeth am gynllunio eich taith gerdded, ewch i **www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/glyndwrs-way/circular-linear-walks**